Mynwent ganoloesol gynnar a gwersyll adeiladu Rhufeinig o dan Ysgol Yr Hendre, Llanbeblig, Caernarfon

Cloddiadau archaeolegol o waith Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd i Gyngor Gwynedd



CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd
Gwynedd Archaeological Trust

Bu i gloddio archaeolegol yn 2010 a 2011 cyn codi ysgol newydd yn Llanbeblig, Caernarfon, Gwynedd, ddatguddio mynwent ganoloesol gynnar ag ynddi bum corfflan. Hefyd canfuwyd cyfres o boptai milwrol Rhufeinig, sydd o bosibl yn cynrychioli gwersyll a ddefnyddiwyd gan filwyr a gododd y gaer yn Segontium. Roedd nodweddion eraill a ganfuwyd yn cynnwys pydew Neolithig a phydewau a rhigolau canoloesol.

Cyflwyniad

Yn 2006 wrth hedfan dros Gaernarfon yn tynnu lluniau o'r awyr ar gyfer Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru, sylwodd Toby Driver ar farc sgwâr gwyrdd ar wellt crin y caeau chwarae sydd ger stad tai Tŷ Gwyn, ac fe dynnodd ei lun.

Adnabu Toby y safle fel bedd caeëdig. Mae hwn yn fath o safle y gellir ei weld ar hyd a lled gorllewin Prydain, ac fel rheol maent yn dyddio'n ôl i'r 5ed i'r 7fed ganrif OC. Daeth cyfle i archwilio'r safle'n fanylach pan ddewisodd Cyngor Gwynedd y caeau yn Nhŷ Gwyn ar gyfer adeiladu ysgol newydd. Cyflogwyd Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd i gynnal rhaglen waith i archwilio'r ardal.


Cynhaliwyd arolygon cychwynnol oedd yn cynnwys archwilio cofnodion archif, cynnal arolygon geoffisegol a chloddio ffosydd prawf. Bu i'r rhain ddatguddio presenoldeb o leiaf un bedd caeëdig arall, cyfres o feddi anghaeëdig a nodweddion eraill. Cafodd yr ardal oedd i'w ddatblygu ei chloddio'n llawn. Dechreuodd prif gam y cloddio ar 5 Ebrill 2010 ac fe'i cwblhawyd ar 30 Gorffennaf 2010, ac yna bu cam llai o gloddio rhwng 16 Mai 2011 a 27 Mai 2011.



Chwith:
Llun o'r awyr a dynwyd yn 2006 sy'n dangos marc crin sgwâr yn agos i'r canol (hawlfraint Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru)

Canlyniadau'r Cloddiad

Bu i gloddiad llawn ddatguddio cyfres gymhleth o nodweddion, a'r cynharaf o ran dyddiad oedd pydew Neolithig oedd yn cynnwys cerrig wedi'u llosgi a naddion fflint. Er ei bob hi'n anodd ail-greu hanes llawn y safle o'r cyfnod hwn ymlaen, mae'n debyg mai defnydd amaethyddol fu iddo yn y cyfnod cynhanesyddol hwyr pryd y'i dewiswyd yn y ganrif 1af OC gan filwyr Rhufeinig fel safle addas i adeiladu cyfres o boptai dros dro. Yn dilyn hyn, yn ystod cyfnod pan oedd Segontium ym



De:
Cynllun o'r safle a'r nodweddion archaeolegol gyda mewnosodiad yn dangos lleoliad y safle mewn perthynas â chaer Rufeinig Segontium (© Hawlfraint y Goron Arolwg Ordnans. Cedwir pob hawl)

meddiant y Rhufeiniaid, mae'n ymddangos bod yr ardal wedi cael ei defnyddio eto at bwrpas amaethyddol. Rhyw dro ar ôl i'r milwyr Rhufeinig adael yn 393 OC defnyddiwyd y safle fel mynwent. Darganfuwyd pum bedd caeëdig a mwy na 40 o feddau anghaeëdig. Mae'r fynwent yn fwy na thebyg yn dyddio'n ôl i'r 5ed i'r 7fed ganrif OC. Unwaith eto defnyddiwyd y safle at ddefnydd amaethyddol, ac mae sychwr ŷd sy'n dyddio'n ôl i'r 11eg i'r 12fed ganrif yn cadarnhau bod ŷd yn cael ei dyfu yma.Yn y 19eg ganrif sefydlwyd fferm fechan yma, ac yn ddiweddarach codwyd tŷ gwydr ar ran o'r safle.

Y Pydew Neolithig

Roedd yna haenen o gerrig wedi'u cracio gan wres a golosg ar waelod pydew bychan bas a'i hyd yn 1.1m, ei led yn 0.9m a'i ddyfnder yn 0.16m. Roedd y pydew yn cynnwys casgliad o naddion a sglodion fflint a thamaid bychan o grochenwaith Neolithig. Mae'r holl ddarnau o fflint yn wastraff creu offer (proses a elwir yn naddu fflint) ac nid oedd dim offer gorffenedig yn y pydew. Defnyddiwyd cerrig bychain o ansawdd gwael, a gasglwyd mae'n debyg oddi ar y traethau agosaf ar ôl cael eu cario yno wedi iddynt erydu oddi ar glog-gleiau rhewlifol. Collen oedd y rhan fwyaf o'r golosg yn y pydew, a hefyd canfuwyd llawer o ddarnau o gregyn cnau collen, a gariwyd o bosibl ar ganghennau ar gyfer tanwydd. Dangosodd dwy broses ddyddio radiocarbon ar gragen cneuen gollen ruddedig bod y pydew yn dyddio'n ôl i'r cyfnod Neolithig; rhwng tua 2800 a 2300 CC.

Mae presenoldeb y pydew yma o leiaf yn awgrymu lleoliad gwersyll dros dro, ble bu pobl yn coginio ac yn trin offer fflint. Mae tystiolaeth arall o'r ardal ehangach, yn arbennig siamberi claddu, yn dynodi poblogaeth breswyl ar yr adeg yma, fyddai wedi symud naill ai mewn grwpiau hela, neu'n symud eu hanheddiad o dro i dro. Er y byddai moryd lanw'r Seiont, a'r arfordir cyfagos, wedi sicrhau cyflenwad digonol o fwyd ac adnoddau eraill, dyma'r unig dystiolaeth y mae archaeolegwyr wedi ei ganfod hyd yma o bresenoldeb Neolithig yn yr ardal sy'n agos i'r safle.






Chwith:
Fflintiau o'r Pydew Neolithig

Chwith pellaf:
Y Pydew Neolithig yn ystod y cloddiad

Poptai Pydew Rhufeinig a Gwersyll Adeiladu posibl ar gyfer Caer Segontium

Wedi'u gwasgaru ar hyd y safle, yn y fynwent ddiweddarach a thu hwnt, roedd yna ddeunaw o nodweddion yn ymylu ar fod yn siap ffigur wyth a ffurfiwyd o ddau bydew wedi'u huno. Ym mhob achos roedd yna briddoedd oren-goch o ganlyniad i wres ar waelod ac ochrau un o'r pydewau oedd yn amlwg wedi cynnal tân, tra bod yna brinder olion llosgi'n gyffredinol yn y llall, er gwaethaf presenoldeb golosg. Roedd yr holl nodweddion hyn yn amrywio mewn hyd o 2.98m i 1.4m, mewn lled o 2.0m i 0.65m ac mewn dyfnder o 0.58m i 0.12m. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod yna do o dywyrch ar y pydewau oedd o bosibl wedi cael eu cynnal gan ganghennau, oedd yn creu gofod caeëdig y gellid ei ddefnyddio i goginio.

De:
Cynllun yn dangos lleoliad y poptai (mewn du)




Defnyddiwyd y pydew arall i gribinio gweddillion y tân.

Mae'r nodweddion wedi cael eu dehongli fel poptai. Mewn poptai clai neu bydew, mae'n arferol tynnu'r lludw allan o'r popty wedi iddo gyrraedd ei dymheredd, rhoi'r bwyd ynddo, selio'r popty a'i adael i goginio.

Ni ddyluniwyd y popty hwn ar gyfer defnydd yn y tymor hir, ac o ystyried swm y golosg yn y pydew cribinio a gwres y tân yn y poptai, awgrymir mai ychydig iawn o ddefnydd gafodd bob popty. Gwahanwyd y rhan fwyaf o'r poptai 15-20m oddi wrth ei gilydd, er bod rhai wedi cael eu paru, ac eraill mewn llinell fras, ond nid oedd llawer o batrwm ystyrlon i'w dosbarthiad.

Roedd yr ychydig ddarganfyddiadau o'r nodweddion hyn yn cynnwys hoelen wedi rhydu, darnau bychain o asgwrn wedi'i losgi, ychydig iawn o naddion fflint, ac un darn o grochenwaith sgrafellog. Mae'n anodd gwneud diagnosis o'r darn olaf hwn, ond gellir dweud bron yn bendant mai darn bychan o grochenwaith Rhufeinig ydyw. Nid oedd hi'n ymddangos bod yr un o'r darganfyddiadau'n uniongychol gysylltiedig â defnyddio'r poptai.

Mae dadansoddi'r golosg wedi dangos



Chwith:
Enghreifftiau o'r popta**i**



De:
Trawslun drwy un o'r pydewau cribinio yn dangos haenau o olosg a phridd wedi'i losgi bob tro y'i defnyddiwyd



De:
Pâr o boptai yn agos at ei gilydd

mai derw a ddefnyddiwyd yn bennaf fel tanwydd yn y poptai, ac ychydig y gollen, onnen neu boplysen. Defnyddiwyd llwyfen hefyd yn chlysurol.

Darganfuwyd ychydig o rawnfwyd rhuddedig yn cynnwys gwenith, haidd a cheirch, ond dim llawer ohono, ac mae'n bosibl y defnyddiwyd y grawn gyda gwellt i gynnau'r tân

Oherwydd prinder y darganfyddiadau roedd hi'n anodd dyddio'r poptai, felly defnyddiwyd dyddio radiocarbon ar danwydd rhuddedig a grawnfwyd o saith o'r poptai. Mae dadansoddi ystadegol y canlyniadau'n awgrymu y defnyddiwyd y poptai rhwng cal OC 25-80 a cal OC 60-120, am gyfnod nad oedd yn fwy na 80 mlynedd ac mae'n debyg am 1-30 o flynyddoedd yn unig. Mae'r dyddiadau mewn gwirionedd yn gyson â'r holl boptai'n cael eu defnyddio ar yr un adeg, a gwall ystadegol y dyddiadau sy'n rhoi'r ystod bosibl. Mae natur fregus y poptai yn awgrymu y defnyddiwyd pob un am gyfnod byr yn unig, a gall eu dosbarthiad ar y safle fod yn gyson â grwpiau bychain o bobl yn eu defnyddio o gwmpas yr un adeg.

Er nad yw'n bosibl profi'n bendant bod yr holl boptai wedi cael eu defnyddio ar yr un adeg, mae'n werth archwilio'r ddamcaniaeth ac edrych eto ar y dadansoddi ystadegol. Drwy gyfuno'r holl ddyddiadau, gellir sefydlu gwell amcan o ran defnydd sy'n rhoi'r cyfnod cal OC 65-80 i ni: ystod digon manwl i allu ei chymharu â digwyddiadau hanesyddol. Awgrymwyd gan gloddwyr caer Rufeinig Segontium,



Chwith: Tribuli wedi'i greu gan grŵp ail-greu. Hawlfraint: Sean Richards, Legio IX Hispana, California



Chwith pellaf: Un o'r poptai Rhufeinig wedi'i gloddio'n lân, yn dangos ochrau a gwaelod y pydew tân wedi'u llosgi'n goch.

gan ddefnyddio tystiolaeth hanesyddol a thystiolaeth crochenwaith ac arian, bod y safle yn un 'Agricolaidd ac yn dyddio'n ôl i OC 77 neu'n fuan wedi hynny' (Casey a Davies, 1993,10). Mae'r awdur Rhufeinig Tacitus yn dweud wrthym bod Iuluis Agricola, oedd yn llywodraethwr rhwng OC 77 ac OC 83, wedi tawelu'r llwyth lleol, a alwai'n Ordoficiaid, ac wedi mynd ymlaen i ymosod ar Ynys Môn.

Mae'r syniad y gallai'r rhain fod yn boptai maes milwrol Rhufeinig yn cael ei gefnogi gan ddarganfyddiad nifer o boptai tebyg mewn gwersyll gorymdeithio Rhufeinig yn Kintore yn Swydd Aberdeen. Yno awgrymwyd fod y poptai'n cynrychioli lleoliad pebyll contubernia (grwpiau o 8 dyn) unigol a byddai'r dehongliad yma'n gyson â dosbarthiad y poptai yn Ysgol yr Hendre ble mae'r amcan ddyddiad yn amgrymu y'u defnyddiwyd pan godwyd y gaer yn Segontium. Felly, efallai bod hwn yn safle gwersyll y milwyr oedd yn adeiladu'r gaer. Nid yw ei leoliad, rhyw 300m o'r gaer, ddim yn broblem, gan fod gwersylloedd adeiladu hysbys eraill yn bellach oddi wrth eu caearau, ond byddid yn disgwyl gweld ffos amddiffynnol o gwmpas y gwersyll, ac ni chanfuwyd un yn ystod y cloddiad. Fodd bynnag, mewn man arall ym Mhrydain ceir tystiolaeth nad oedd ffosydd yn perthyn i bob gwersyll dros dro. Gallai defnyddio tribuli, amddiffynfeydd a adeiladwyd o stanciau wedi'u rhwymo at ei gilydd, neu ddyfais debyg, fod wedi darparu amddiffynfa ddigonol heb yr angen am ffosydd.


Os yw'r poptai'n cynrychioli gwersyll adeiladu ar gyfer Segontium, mae'n bosibl dychmygu bod pob contubernium wedi gwersylla ar wahân gyda phellter cymharol gyson oddi wrth ei gilydd, pob un â phabell a'r rhan fwyaf â phopty. Darganfuwyd darnau o ledr, a ddehonglwyd fel paneli ar bebyll milwrol Rhufeinig, mewn ffynhonnau Rhufeinig ger Segontium ym 1920 a 1977. Gallai pebyll o'r fath fod wedi cael eu defnyddio yn Ysgol yr Hendre, a byddai gwersyll o'r fath wedi gadael ychydig o olion archaeolegol ar wahân i'r poptai.

Y Fynwent Ganoloesol Gynnar

Daeth teyrnasiad y Rhufeiniaid i ben yng Nghaernarfon ar ddiwedd y 4edd ganrif – mae'n debyg bod y milwyr Rhufeinig olaf wedi cael eu tynnu o Segontium yn OC 393, gan adael y gaer yn anghyfannedd. Roedd yna anheddiad allanol y tu allan i'r gaer, ond hyd yma ni chafwyd fawr o dystiolaeth am ei datblygiad ar ôl iddynt adael y gaer.

Mae'r dystiolaeth archaeolegol ar gyfer y canrifoedd sy'n dilyn teyrnasiad y Rhufeiniaid yn gymharol denau, a'r dystiolaeth honno'n nodweddiadol yn dod o fynwentydd yn hytrach nag o aneddiadau. A dyma'r achos yn Ysgol yr Hendre.


De:
Cynllun o'r brif fynwent gyda thair corfflan wedi'u hamgylchynu â beddau



Mae yna siapiau gwahanol i fynwentydd o'r cyfnod yma, a mathau gwahanol o feddau ynddynt, ond mae gan bob un nodweddion sy'n gyffredin. Mae'n nodweddiadol i'r beddau fod wedi cael eu gosod mewn bras aliniad o'r dwyrain i'r gorllewin, mae'r beddau'n cynnwys claddedigaethau gyda'r pen yn y gorllewin, ac nid yw'r beddau'n cynnwys unrhyw nwyddau claddu. Fodd bynnag, ceir mân wahaniaethau. Gellir leinio rhai beddau a'u gorchuddio â slabiau cerrig (fel rheol gelwir beddau o'r fath yn feddau cistfaen hir), gellir leinio eraill â choed, tra mae'n ymddangos nad oes gan eraill unrhyw leinin amlwg, ond yn hytrach maent wedi cael eu tyllu a'u hôl-lenwi. Mewn rhai mynwentydd, mae rhai beddau wedi'u hamgáu gan ffos amgylchynol, fel yn yr achos hwn. Gellir cyfeirio at y caeadle fel 'corfflan', ac ar brydiau cyfeirir at safleoedd tebyg fel 'crugiau sgwâr'.

Roedd yna dair corfflan ym mhrif ran y fynwent wedi'u hamgylchynu â 41 o feddau, a darganfuwyd dwy gorfflan arall i'r gogledd. Er bod ffiniau'r fynwent wedi cael eu darganfod ar y terfynau deheuol, dwyreiniol a gogleddol, efallai ei bod wedi parhau tua'r gorllewin o dan y stad o dai presennol.

Roedd tair o'r corfflannau yn sgwâr, a'u maint hyd at 7.3m wrth 7.3m, ac roedd



Chwith: Cynllun o'r corfflannau gogleddol a dim beddau amgychynol

De Pellaf:
Stripio uwchbridd â pheiriannau a chloddio'r fynwent â llaw



De:
Y gorfflan ogleddol wedi'i chloddio'n lân



dwy yn rhai petryal. Diffiniwyd pob un gan ffosydd, oedd mwy neu lai ar yr un aliniad dwyrain-gogledd-ddwyrain i'r gorllewin-de-orllewin, a mynedfa ar yr ochr ddwyreiniol. Roedd gan bedair corfflan fedd canolog unigol, ond roedd gan un corfflan betryal dri bedd wedi eu gosodd yn gyfochrog y tu mewn iddi. Mae'r rhain yn edrych fel grŵp teuluol, ond gan nad oes unrhyw esgyrn wedi goroesi yn unrhyw un o'r beddau (mae'r pridd yn rhy asidig i esgyrn oroesi) ni ellir profi hyn. Tybir fod y corfflannau yn dynodi ffafriaeth ar gyfer unigolion penodol, sydd efallai'n adlewyrchu eu statws pan oeddent yn fyw.

Roedd y beddau, yn gaeëdig ac anghaeëdig, yn amrywio rhwng 2.6m a 0.6m mewn hyd. Mae'n debyg bod yr amrywiaeth mewn hyd yn gysylltiedig â thaldra'r unigolyn a gladdwyd ac awrymwyd mai beddau plant oedd y rhai llai.

Er bod union orweddiad y beddau yn amrywio, roedd pob un wedi'i alinio'n fras o'r dwyrain i'r gorllewin, a'r pen yn y gorllewin. Roedd y beddau'n rhannu'n grwpiau, a'r beddau ym mhob grŵp yn gytbell ac ar yr un aliniad. Yr argraff yw bod beddau'n cael eu hychwanegu fesul ychydig, gyda pheth ymwybyddiaeth o ble yr agorwyd beddau cynharach.

Roedd y beddau oedd agosaf at y corfflannau yn tueddu i adlewyrchu gorweddiad y gorfflan, fel petaent wedi eu gosod yn fwriadol mewn perthynas â hwy. Mae'n debyg bod un neu ragor o'r corfflannau wedi bod yn ganolbwynt y fynwent ond heb dystiolaeth ddyddio mae'n amhosibl dweud pa un oedd y cynharaf.

Roedd gan nifer o'r beddau, yn cynnwys y rhai yn y corfflannau, gerrig wedi'u gosod ar hyd yr ochrau hir, mewn rhai achosion wedi cael eu pentyrru hyd at dair carreg mewn uchder. Mae'n debyg bod y cerrig yma yn dynodi bod leinin o goed wedi bod yn y beddau. Darganfuwyd cerrig o'r fath mewn beddau yn Nhŷ Mawr, Caergybi, ac ar rai ohonynt roedd yna staeniadau oedd yn dynodi planciau coed. Efallai nad oedd y rhain yn eirch ag uniadau, ond planciau heb uniadau yn cael eu cynnal drwy bacio cerrig. Nid oedd yr un o feddau Ysgol yr Hendre yn cynnwys cistiau wedi'u leinio â cherrig.

Dargafuwyd rhai darnau o grochenwaith Rhufeinig yn y beddau a ffosydd y corfflannau, ond mae'n debyg bod y rhain wedi bod yn yr uwchbridd pan agorwyd y beddau, a'u bod wedi cael eu cynnwys yn ddamweiniol wrth ôl-lenwi.

Roedd prinder y darganfyddiadau ac olion ysgerbydol dynol yn golygu nad oedd hi'n bosibl dyddio'r fynwent yn fanwl. Fodd bynnag, roedd ychydig o olosg wedi cae ei daflu i un o ffosydd y corfflannau.

Mae dyddio radiocarbon ar olosg collen o'r dyddodyn hwn yn ei ddyddio'n ôl i'r 6ed i'r 7fed ganrif OC. Mae'r darganfyddiadau (darnau bychain o esgyrn ac onnen wedi'u llosgi) yn awgrymu bod y dyddodyn hwn efallai wedi dod o domen sbwriel. Roedd hefyd yn cynnwys ambell delchyn o grochenwaith Rhufeinig, sy'n dangos bod peth deunydd o gyfnod llawer cynharach yn gymysg ynddo. Yn anffodus nid yw'n eglur pam fod y deunydd hwn wedi cael ei daflu i'r ffos, nac o ble y daeth cyn iddo gael ei daflu. Felly mae'n anodd defnyddio'r canlyniadau hyn i ddyddio'r gorfflan, er bod y 6ed i'r 7fed ganrif fel dyddiad i'r golosg yn gyson â mynwentydd tebyg eraill sydd wedi cael eu dyddio'n fwy cywir.




Y dyd-destun ehangach

Roedd defodau claddu Rhufeinig yn ordeinio y dylai mynwentydd gael eu lleoli y tu allan i ardaloedd caerau, trefi ac aneddiadau eraill. Corfflosgi oedd y prif ddefod gladdu yn y ganrif 1af a'r 2il ganrif OC, ac yn dilyn hyn daeth claddedigaeth i fod yn norm. Darganfuwyd corfflosgiadau Rhufeinig mewn yrnau a photiau eraill yn dyddio'n ôl i ddiwedd y ganrif 1af a dechrau'r 2il ganrif OC pan agorwyd beddau newydd yn y Fynwent Newydd i'r de o Ffordd Llanbeblig o tua 1850 hyd at 1947. Bu i hyn ddatguddio lleoliad mynwent Rufeinig oedd yn nodweddiadol wedi'i lleoli ar ymyl y ffordd o Segontium i'r gaer yn Nhomen y Mur. Mae gwasgariad o gladdedigaethau eraill wedi cael eu darganfod yn bennaf i'r gogledd o'r gaer.

Roedd mynwent Ysgol yr Hendre gryn bellter o'r fynwent Rufeinig, felly mae'n debyg na fyddai hynny wedi dylanwadu ar leoliad y fynwent ddiweddarach. Felly tybed beth allai'r dylanwad hwnnw fod?

Gall Eglwys Llanbeblig, sydd tua 200m i'r de-ddwyrain o'r fynwent ganoloesol gynnar, ddynodi safle anheddiad cynnar. Nid yw olion presennol yr eglwys yn cynnwys dim deunydd o gyfnod cynharach na'r 13eg ganrif, ond



Chwith pellaf: U'n o'r beddau gyda'r cerrig fyddai wedi cynnal leinin coed

Chwith: Enghreifftiau o'r crochenwaith Rhufeinig a ddarganfuwyd yn y fynwent ac o'i chwmpas



De:
Y safle yn ystod y cloddiad ac Eglwys Llanbeblig a'r Fynwent Newydd fodern (safle'r fynwent Rufeinig) ar ochr arall y ffordd

cysegrwyd yr eglwys i Peblig Sant (Publicius), yr honnir yn draddodiadol iddo fod yn fab i Macsen Wledig (h.y. Magnus Maximus, a ddaeth am gyfnod byr yn ymerawdr Rhufeinig y gorllewin rhwng OC 383 a 388). Mae'r eglwys yn agos i safle'r fynwent Rufeinig, ac awgrymwyd y gall ei lleoliad a'i chysegriad i Gristion Rhufeinig ddynodi parhad Cristnogaeth Rufeinig. Daeth Cristnogaeth i fod yn grefydd swyddogol yr ymerodraeth yn y 4edd ganrif OC ac roedd yn boblogaidd ymysg milwyr. Awgrym efallai o bresenoldeb Cristnogion yng Nghaer Segontium yn y cyfnod Rhufeinig hwyr yw i deml i Fithras gael ei dinistrio gan dân, teml a ddarganfuwyd ac a gloddiwyd ym 1959, tua 150m o'r safle presennol.

Mae'r berthynas rhwng y fynwent yn Ysgol yr Hendre a'r eglwys ganoloesol yn parhau i fod yn amwys, ond os oedd yr eglwys yn dynodi safle anheddiad, gellid disgwyl y byddai'r fynwent gyfoes bellter parchus i ffwrdd. Ni all y crynodiad o henebion claddu a chrefyddol yn yr ardal i'r dwyrain o'r gaer fod yn hollol ddamweiniol, a gall ddynodi parhad arferion crefyddol yma a hynny'n arwain at godi'r eglwys a gysegrwyd i Beblig Sant yn y 12fed, neu'r 13eg ganrif.

Yn ystod y cyfnod o droi at Gristnogaeth, ac mewn gwirionedd am nifer o genedlaethau wedyn hyd at y 7fed ganrif OC, roedd mynwentydd yn cael eu cysylltu ag aneddiadau, ac nid ag eglwysi. Ar y cychwyn roedd paganiaid a Christnogion yn cael eu claddu ochr yn ochr â'i gilydd, a dim ond ar ôl OC 700 y ceisiodd yr eglwys reoleiddio claddu ac annog claddu ger neu mewn lle o addoliad. Ar brydiau gelwir y mynwentydd cynnar hyn yn 'fynwentydd aneddiadau' oherwydd fe'u dynodwyd fel tir claddu'r gymuned, ac nid yr eglwys o anghenraid. Fel hyn, mae'n debyg, y dylem ystyried y fynwent yn Ysgol yr Hendre.


Nodweddion Canoloesol

Darganfuwyd rhai nodweddion nad oeddent yn perthyn i'r fynwent na chyfnod y Rhufeiniaid. Un o'r nodweddion hynny oedd sychwr ŷd gyda sianel hir yn rhedeg o bydew isgylchog bas. Byddai grawn wedi cael eu hongian uwchben y pydew, a thân wedi cael ei gynnau ar ben pellaf y ffliw. Byddai hyn wedi galluogi i aer poeth o'r tân sychu'r grawn heb orfod poeni am wreichion yn eu rhoi ar dân. Roedd yna dystiolaeth o losgi yn y ffliw ond nid yn y pydew.

Roedd y sychwr ŷd yn torri drwy ddau fedd, ac felly yn ystod y cloddiad fe ddynodwyd yn glir ei fod o gyfnod diweddarach na'r fynwent. Cadarnhawyd hyn gan ddyddiadau radiocarbon a gafwyd o rawn wedi'i losgi a'i gosododd yn yr 11eg i'r 13eg ganrif. Yn amlwg, erbyn y cyfnod hwnnw roedd gwybodaeth am y fynwent wedi cael ei anghofio.

Mewn samplau pridd o'r nodwedd hon cafwyd grawn ceirch rhuddedig, ac ychydig o farlys o darnau o gregyn cnau collen. Mae'r prinder hadau chwyn yn awgrymu bod grawn wedi'i olchi yn cael ei sychu, a bod rhuddo'r grawn efallai wedi digwydd o ganlyniad i losgi'r grawn yn ddamweiniol wrth ei sychu. Mae sychu ŷd yn helpu i gadw'r grawn ac i hwyluso melino. Roedd sychwyr ŷd yn arbennig o bwysig pan fo ceirch yn brif gnwd gan fod y rhain yn cael eu tyfu mewn mannau gwlypach ble mae'r tymor tyfu'n fyrrach. Daeth defnyddio ceirch i fod yn fwy poblogaidd yn y cyfnod canoloesol, ac mae hyn yn helpu i egluro'r cynnydd yn nifer y sychwyr ŷd a nodwyd yn y cyfnod hwn.


Yn y fynwent hefyd roedd yna bydew is-betryal 1.6m wrth 1.0m wrth 2.5m o ddyfnder. Ar waelod y pydew roedd yna ychydig o gerrig mawr ac roedd y llenwad yn cynnwys telchyn o grochenwaith Rhufeinig a darn o asgwrn wedi'i losgi. Roedd hefyd yn cynnwys nifer sylweddol o rawnfwyd rhuddedig, ceirch yn bennaf ond hefyd nifer fechan o rawn barlys a gwenith. Gall hyn ddynodi dympio grawn wedi'i ddifetha neu wastraff domestig i'r pydew. Roedd dyddiadau radiocarbon o rawnfwyd rhuddedig yn dangos bod y nodwedd, er gwaetha'r crochenwaith, yn perthyn i'r cyfnod canoloesol a hefyd yn dyddio'n ôl i'r 11eg i'r 13eg ganrif OC, ond o bosibl i gyfnod cynharach na'r sychwr ŷd. Y demtasiwn yw dehongli'r pydew hwn fel math symlach o sychwr ŷd, ond mae diffyg tystiolaeth o dân yng ngwaelod y pydew yn awgrymu nad hynny ydoedd.





Chwith pellaf: Cynllun o'r sychwr ŷd yn ei ddangos yn torri drwy feddau.

Chwith: Pydew canoloesol a cherrig mawr ar y gwaelod



De:
Cynllun o'r rhigol ganoloesol yn rhedeg o'r gorfflan fwyaf ogleddol

Roedd yna rigol fain yn rhedeg o un o'r corfflannau gogleddol. Roedd hon yn troi'n raddol a goroesodd 15m ohonni. Roedd ei lled yn 0.5m a'i dyfnder yn hyd at 0.22m, ac fe'i hagorwyd drwy ffos y gorfflan oedd wedi cael ei llenwi. Roedd yna hefyd rigol dro fas debyg ar ochr ogleddol y gorfflan. Roedd y rhigol yn cynnwys darnau o olosg, y profwyd eu bod yn cynnwys collen a helygen neu boplysen, sy'n awgrymu mai coed tân oeddent. Roedd hi hefyd yn cynnwys swm annisgwyl o fawr o rawnfwyd rhuddedig, ceirch yn bennaf (dros 4000 o rawn) a nifer fechan o wenith a barlys, ychydig o hadau chwyn a darnau o gragen cnau collen. Yn y dyddodyn hefyd dynodwyd un bysen gardd ruddedig.

Mae cymhareb y grawn yn awgrymu mai ceirch oedd y cnwd a dyfwyd yn bennaf. Defnyddiwyd dyddio radiocarbon ar y bysen ac un gronyn o geirch, ond roedd y ddau ganlyniad yn wahanol iawn. Roedd y bysen yn dyddio'n ôl i'r 16eg neu'r 17eg ganrif OC, a'r gronyn ceirch i'r 10fed i'r 12fed ganrif OC. O ystyried swm y ceirch yn y dyddodyn mae'n debyg bod y bysen unigol yn ymyrraeth ddiweddarach, a bod y rhigol yn dyddio'n ôl i'r 10fed i'r 12fed ganrif OC. Mae'n debyg bod y deunydd planhigion rhuddedig a ganfuwyd yn y rhigol yn ganlyniad i ddamwain yn y sychwr ŷd.

Ni ellid dynodi'r gyfundrefn gaeau ganoloesol yn glir yn y cofnod archaeolegol. Darganfuwyd nifer o ffosydd o gyfnod cynharach na chyfnod y gyfundrefn gaeau bresennol, ond nid oeddent yn cynnwys unrhyw dystiolaeth ddyddio, ac ni ellid dynodi unrhyw gynllun ystyrlon. Fodd bynnag, mae tystiolaeth o fan arall yn awgrymu y tyfid y cnydau mewn lleiniau hirion mewn caeau mawr agored. Erbyn y 18fed ganrif byddai'r rhain wedi cael eu hamgáu, a chyfundrefnau caeau newydd wedi cael eu sefydlu.

Y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg a'r Ugeinfed Ganrif

Tai gwydr
Yn rhan ddeheuol y safle roedd yna olion tŷ gwydr wedi'i ddiffinio gan wal frics isel. Chwe metr i'r dwyrain o ben yr adeilad hwn roedd yna strwythur bach o frics â llawr concrid a 3 gris yn troi i lawr i'r adeilad, oedd wedi'i osod tua 1m o dan wyneb y tir. Roedd yn cynnwys strwythur brics sylweddol, oedd o bosibl yn cynnwys boeler, ac yn gweithredu fel ystafell foeler i gynhesu'r tŷ gwydr trwy gysylltiad pibell wedi'i diogelu o dan slabiau llechi mawr. Roedd yna hefyd drydydd adeilad o frics y mae'n ymddangos iddo fod yn gwt potio, ac olion storfa lo o bosibl.

Ar argraffiad cyntaf map Arolwg Ordnans 25 modfedd 1888 gwelir llwybr o Ffordd Llanbeblig i adeilad nad yw'n cael ei labelu ar y map hwn ond a ddangosir ar fap 1918 fel tŷ gwydr. Erbyn y cyfnod hwn roedd yna ddau dŷ gwydr arall a strwythurau cysylltiedig. Adeiladwyd Ysbyty Neilltuo Gallt-y-Sil ar gyfer clefydau heintus ym 1904, dros y ffordd i Dyddyn Pandy. Mae'n bosibl bod y tai gwydr wedi cael eu hymestyn i ddarparu bwyd i'r ysbyty. Mae lluniau o'r awyr yn dangos bod y tai gwydr wedi cael eu dymchwel yn llwyr erbyn 1948 pryd y gellir gweld padogau bychain a rhandiroedd yn y cae.





Chwith pellaf:
Ystafell foeler wedi'i chysylltu â'r tŷ gwydr

Chwith:
Olion bwthyn bach cerrig

Buarth ferm
Dynodwyd buarth bychan wrth gynnal asesiad archaeolegol o'r safle, pan yr oedd olion rhai adeiladau brics yn weladwy. Datguddwyd rhagor o strwythurau brics yn ardal y cloddiad a chofnodwyd olion bwthyn cerrig.

Mae map Arolwg Ordnans 1888 yn dangos tri adeilad bach, a'r bwthyn cerrig oedd yr un pellaf i'r de-ddwyrain. Roedd ffynnon yno hefyd. Erbyn 1918 roedd y tri adeilad yma wedi cael eu troi'n fuarth petryal caeëdig, gydag adeiladau ychwanegol a phadogau neu erddi bychain. Roedd y ffarm yn dal i fodoli ym 1950, ond cafodd ei dymchwel erbyn 1966 (fel y gwelir yn y lluniau o'r awyr).

Cydnabyddiaethau

Arianwyd y gwaith gan Gyngor Gwynedd a dymuna YAG ddiolch i Richard Farmer a oruchwyliodd y gwaith ar ran y Cyngor. Dymuna YAG gydnabod y cymorth a'r cydweithrediad a ddarparwyd gan ein contractwr gwaith tir O Jones yn ystod pob elfen o'r cynllun, a diolch i'r tîm o archaeolegwyr safle am eu gwaith ymroddedig. Dymuna YAG hefyd gydnabod yr arweiniad a'r cymorth a ddarparwyd gan Ashley Batten o Wasanaethau Cynllunio Archaeolegol Gwynedd, wrth arwain y prosiect ac wrth roi cyngor yn ystod y gwaith maes. Rheolwyd yr holl waith maes gan John A Roberts. Gwnaethpwyd y gwaith rhigoli gwerthuso cam II a III gan Cat Rees, Matt Jones, Laura Parry, Iwan Parry a Neil McGuinness. Cyfarwyddwyd gwaith maes cam IV gan Ken Owen; roedd ei dîm yn cynnwys Liz Chambers, Jess Davidson, Matt Jones, Peter Jones, Chris Lane, ac Anne Marie Oattes. Gwnaethpwyd gwaith maes cam V gan Peter Jones, Macsen Flook a Jane Kenney gyda chymorth Rob Evans a Rich Cooke. Dymuna YAG gydnabod cyfraniadau'r arbenigwyr; Phil Parkes, Cardiff Conservation Services; Gordon Cook a Derek Hamilton, SUERC Radiocarbon Laboratory; Peter Webster (crochenwaith Rhufeinig); Hilary Cool (gwydr Rhufeinig), Tim Young, GeoArch: ymchwiliadau geoarchaeolegol, archaeofetelegol a geoffisegol; Nora Bermingham (esgyrn anifeiliaid); George Smith (lithigau), Rosalind McKenna (gweddillion planhigion rhuddedig), a'r tîm rhidyllu gwlyb/arnofiant Richard a Gill Collier. Darluniadau gan Macsen Flook a Jane Kenney a'r testun gan Jane Kenney, Laura Parry ac Andrew Davidson.

Darllen Pellach

Mae rhagor o fanylion ac adroddiad llawn o'r cloddiad (Kenney a Parry 2013: Adroddiad YAG 1103) ar gael ar wefan yr Ymddiriedolaeth (www.heneb.co.uk). Gellir ymgynghori â'r adroddiad llawn hefyd yng Nghofnodion Amgylchedd Hanesyddol Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd, neu gellir ei lawrlwytho fel ffeil pdf o wefan Archwilio (www.archwilio.org.uk) neu wefan Coflein (www. coflein.gov.uk) (chwiliwch am Ysgol yr Hendre). Bydd adroddiad yn cael ei gyhoeddi yn Archaeologia Cambrensis, cyfnodolyn Cymdeithas Hynafiaethau Cymru. Rhestrir isod rai o'r prif ffynonellau a ddefnyddiwyd yn yr adroddiad hwn – mae nifer o'r cyfeiriadau hyn hefyd yn cynnwys llyfryddiaethau manwl ar gyfer ymchwilio pellach.

Boon, G. C., 1960. 'A Temple of Mithras at Caernarvon – Segontium', Archaeologia Cambrensis CIX (1961), 136-172

Boon, G. C., 1985. 'Leather and worked wood from well 1', in White, R (1985), 'Excavations in Caernarfon, 1976-77', Archaeologia Cambrensis CXXXIV (1986), 88-101

Casey, P. J. a Davies, J. L., 1993. Excavations at Segontium (Caernarfon) Roman Fort, 1975-1979. CBA Research Report 90

Cook, M. a Dunbar, L., 2008. Rituals, Roundhouses and Romans, Excavations at Kintore, Aberdeenshire 200-2006, Volume I: Forest Road, Scottish Trust for Archaeological Research, Edinburgh

Davidson, A., 2009. 'The early church in north-west Wales' yn Edwards, N. (ed) 2009, The Archaeology of the Early Medieval Churches, Society for Medieval Archaeology Monograph Vol 29

Davies, J. L., a Jones, R. H., 2006. Roman Camps in Wales and the Marches, Gwasg Prifysgol Cymru, Caerdydd

Driver, T., 2006. 'RCAHMW Aerial Reconnaissance 2006', Archaeology in Wales 46, 143-152

James, H., 1992. 'Early medieval cemeteries in Wales', yn Edwards, N. a Lane, A. (eds) 1992, The Early Church in Wales and the West. Oxbow Monograph 16, 90-103

Kenney, J. a Longley, D., 2012. 'Ty Mawr, Holyhead. Neolithic activity, ring ditch and early medieval cemetery', yn Cuttler, R., Davidson, D., a Hughes, G. (eds) 2012, A Cor- ridor Through Time, The Archaeology of the A55 Anglesey Road Scheme, Oxbow Books, Oxford, 104-121

Kenney, J. a Parry, l., 2013. Ysgol yr Hendre, Llanbeblig, Caernarfon (formerly Cae Ty Gwyn Playing Fields and Environs): Adroddiad ar Gloddiadau Archaeolegol, heb ei gyhoeddi Adroddiad Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd Rhif. 1103

Longley, D., 2009. 'Early Medieval Burials in Wales', yn Edwards, N. (ed) 2009, The Archaeology of the Early Medieval Churches, Society for Medieval Archaeology Monograph Vol. 29

Pollock, K. J., 2006. The Evolution and Role of Burial Practice in Roman Wales. BAR British Series 426

Wheeler, R. E. M., 1923. 'Segontium and the Roman Occupation of Wales', Y Cymmrodor XXXIII



Gwynedd Archaeological Trust
Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd

Craig Beuno, Ffordd y Garth, Bangor, Gwynedd. LL57 2RT
Ffon: 01248 352535. Ffacs: 01248 370925. email:gat@heneb.co.uk

